

Hawdd ei Ddeall



Plaid Cymru
Party of Wales

Plaid Cymru

Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydyn ni'n ennill
Etholiad Cyffredinol 2019



Cafodd y maniffesto yma ei ysgrifennu gan Blaid Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'u **Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2019**.

Tachwedd 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen gwyrdd trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e mewn **ysgrifen gwyrdd normal**. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl ar dudalen 31.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Plaid Cymru**. Am ragor o fanylion cysylltwch â:

Cyfeiriad: Plaid Cymru

Tŷ Gwynfor, Llys Anson
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd. CF10 4AL.

Gwefan: www.plaid.cymru

Ffôn: 029 2047 2272

E-bost: post@plaid.cymru



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Y 5 prif beth rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw.....	6
1. Swyddi sydd yn dda i'r amgylchedd.....	6
2. Edrych ar ôl pawb.....	7
3. Helpu plant o deuluoedd tlawd.....	9
4. Gwneud tai yn fwy teg.....	10
5. Stopio trosedd.....	12
Aros yn yr Undeb Ewropeaidd.....	14
Ein amgylchedd ni.....	16
Bwyd a ffermio.....	17
Yr iaith Gymraeg.....	18
Diwylliant a'r cyfryngau.....	20
Cydraddoldeb.....	23
Newid San Steffan.....	26
Heddwch a diogelwch.....	27
Pobl sydd yn ymweld â Chymru.....	29
Geiriau anodd.....	31

Cyflwyniad



Ni ydy **Plaid Cymru**. Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae pawb yn gallu gwneud yn dda.



- Dydy'r llywodraeth yn **San Steffan** ddim yn gwneud penderfyniadau sydd yn gweithio'n dda i Gymru.

San Steffan ydy'r prif lywodraeth ym Mhrydain.



Rydyn ni eisiau

- Gwella bywydau teuluoedd Cymru.
- Delio gyda **newid hinsawdd**.



Hinsawdd ydy tueddiadau tywydd hir dymor. **Newid hinsawdd** ydy newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein dŵr a'n aer ni yn mynd yn fwy cynnes.



- Gwella **economi** Cymru.

Economi ydy'r swyddi y mae pobl yn eu gwneud a'r arian sydd ganddyn nhw.



- Gwella ysgolion.



- Gwella iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.



- Helpu'r 50,000 plant tlawd yng Nghymru.



Fe fydd hi'n anodd gwneud y pethau yma os ydyn ni'n gadael yr **Undeb Ewropeaidd**.

Grŵp o wledydd yn Ewrop lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ydy'r **Undeb Ewropeaidd**. Rydyn ni'n rhan o'r **Undeb Ewropeaidd** nawr.



Rydyn ni eisiau i'r cyhoedd gael pleidlais arall am aros yn yr Undeb Ewropeaidd neu beidio



Mae'n amser am newid yng Nghymru. Mae'n amser pleidleisio dros Blaid Cymru.

Y 5 prif beth rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw

1. Swyddi sydd yn dda i'r amgylchedd



Rydyn ni'n meddwl bod Cymru yn gallu arwain y byd wrth ddelio â **newid hinsawdd**.



Os ydyn ni eisiau gwneud hyn rhaid inni roi'r arian i greu swyddi sydd yn dda i Gymru. Ac yn dda i'r blaned.



Er enghraifft, rydyn ni eisiau creu swyddi mewn:

- Ynni sydd yn dod o'r gwynt, dŵr a'r haul yn lle **carbon**.



Carbon diocsid ydy nwy rydyn ni'n ei wneud pan rydyn ni'n llosgi glo ac olew. Mae'n ein helpu ni i wneud trydan ond mae hefyd yn gwneud y byd yn rhy boeth. Mae hyn yn gwneud tywydd eithafol fel llifogydd a stormydd.



- Trafnidiaeth cyhoeddus da fel bod llai o bobl yn defnyddio ceir.



- **Technoleg digidol.**

Technoleg digidol ydy unrhyw beth i wneud gyda chyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.



Erbyn 2030 rydyn ni eisiau stopio defnyddio **carbon** yn gyfan gwbl.



Ac rydyn ni hefyd eisiau stopio defnyddio plastigau rydych chi'n eu defnyddio unwaith. Fel cwpanau a chytleri.

2. Edrych ar ôl pawb



Mae ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol wedi bod mewn trafferthion. Mae hyn oherwydd toriadau cyllid gan y llywodraeth sydd gennym ni nawr.



Rydyn ni eisiau rhoi gofal cymdeithasol am ddim i bobl hŷn. Ac i bobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gwella ein GIG. Rydyn ni eisiau:



- 1 mil o feddygon newydd



- 5 mil o nyrsus newydd



- 100 o ddeintyddion newydd



Fe fyddwn ni'n rhoi rhagor o arian i wasanaethau sydd yn helpu stopio pobl rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf.



Rydyn ni'n credu na ddylai cwmnïau preifat wneud arian o bobl sydd yn sâl.



Fe fyddwn ni'n ymladd i wneud yn siŵr nad ydy'r GIG yn cael ei werthu i gwmnïau preifat. A'i fod yn parhau i fod am ddim i'r bobl sydd ei angen.

3. Helpu plant o deuluoedd tlawd



Dydyn ni ddim eisiau i blant o deuluoedd tlawd cael eu gadael allan. Nac i gael llai o gyfleoedd.

Rydyn ni eisiau:



- Rhoi £35 yr wythnos i deuluoedd tlawd ar gyfer pob un o'u plant.



- Cynnig gofal plant am ddim ac addysg blynyddoedd cynnar i bob plentyn 1 i 3 oed.



- Rhoi £300 miliwn y flwyddyn i'n hysgolion a'n colegau ni. I wneud yn siŵr bod plant Cymru yn cael yr addysg gorau.

4. Gwneud tai yn fwy teg



Mae pobl sydd yn rhentu eu cartrefi yng Nghymru yn cael bargaen wael.



Dydy nifer o bobl sydd yn rhentu eu cartrefi ddim yn ennill llawer o arian. Ac mae nifer o bobl yn gwario mwy nag un rhan o dair o'u hincwm nhw ar dai.



Mae pawb yn haeddu cael tai diogel maen nhw'n gallu eu fforddio.



Felly rydyn ni eisiau rhoi arian i bobl sydd yn talu mwy nag un rhan o dair o'u hincwm nhw ar rent.



Rydyn ni hefyd eisiau adeiladu 20 mil o gartrefi cyngor newydd dros 5 mlynedd.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y cartrefi newydd yma yn defnyddio pŵer o'r haul i wneud trydan ac i gynhesu dŵr.



5. Stopio trosedd



Cymru ydy'r unig wlad yn y DU sydd heb bwerau i wneud penderfyniadau am ei heddlu a'r **system gyfiawnder**.



Y **system gyfiawnder** ydy sut rydyn ni'n delio â throedd yn y wlad yma. Rydyn ni'n penderfynu os ydy pobl yn euog neu yn ddieuog yn y llys.



Dydy hyn ddim yn iawn. Rydyn ni eisiau gallu creu y gwasanaethau sydd yn iawn i Gymru.



Rydyn ni eisiau i bob cymuned gael 2 swyddog heddlu ychwanegol sydd yn adnabod yr ardal ac a fydd yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.



Mae hyn yn meddwl y bydd yna 16 cant o swyddogion heddlu newydd ar draws Cymru.



Fe fydd y swyddogion heddlu ychwanegol yma yn gweithio gyda phobl yn y gymuned i ateb problemau a stopio trosedd cyn i hynny ddigwydd.



HEDDLU
POLICE

Aros yn yr Undeb Ewropeaidd



Rydyn ni'n meddwl y dylai'r cyhoedd yng ngwledydd Prydain gael pleidleisio unwaith eto ar aros neu adael yr **Undeb Ewropeaidd**.



Mae'r llywodraeth Geidwadol yma wedi gwastraffu 3 blynedd yn ceisio ein cael ni i adael yr **Undeb Ewropeaidd**. Ac mae wedi gwrthod gadael i'r cyhoedd gael dweud beth maen nhw'n feddwl am y tro olaf.



Os ydyn ni'n gadael yr **Undeb Ewropeaidd** fe fydd **economi** Cymru yn mynd yn wael. Fe fydd rhaid inni dalu llawer mwy am bethau rydyn ni'n eu prynu o wledydd eraill.



Fe fydd pethau hefyd yn fwy caled i bobl sydd yn byw yng Nghymru ond sydd yn dod o wledydd eraill yn Ewrop. Ac i bobl o Gymru sydd yn byw yn Ewrop.



Mae'r 3 blynedd diwethaf wedi bod yn llanast. Rydyn ni eisiau gwella pethau a symud ymlaen. A gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n gadael yr **Undeb Ewropeaidd**.



Rydyn ni hefyd yn meddwl y dylai Cymru ddod yn aelod o'r **Undeb Ewropeaidd** ar ei phen ei hun. Er mwyn inni gael ein perthynas ein hunain gyda gwledydd Ewropeaidd yn seiliedig ar gydraddoldeb.



Ein amglchedd ni



Rydyn ni wedi niweidio ac wedi colli llawer o leoedd naturiol yng Nghymru. Mae'r lleoedd yma yn gartrefi i'n bywyd gwyllt hi.



Fe fyddwn ni'n gwneud deddfau newydd i ddiogelu ein lleoedd naturiol a'n bywyd gwyllt ni.



Ac fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr nad ydy pobl yn torri'r deddfau yma.



Rydyn ni eisiau i Gymru greu ei ynni ei hun o'r haul, gwynt a dŵr.



Ond mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud hyn mewn ffordd sydd yn gwneud y lleiaf o niwed i'n bywyd gwyllt ni.



Fe fyddwn ni hefyd yn meddwl am wneud rhai ardaloedd yn lleoedd cadwraeth natur. Mae hyn yn meddwl lleoedd arbennig rydyn ni'n gweithio'n galed i edrych ar eu hôl.

Bwyd a ffermio



Mae'r bobl sydd yn gwneud bwyd a diod yng Nghymru yn bwysig iawn. Mae bron i 250 miliwn o bobl yn gweithio yn y gwaith yma.



Bob blwyddyn maen nhw'n gwneud £7 biliwn i **economi** Cymru.



Rydyn ni eisiau i bobl wybod bod bwyd a diod Cymru o'r ansawdd gorau.



Fe fyddwn ni'n parhau i wneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio mewn ffordd sydd yn dda i les anifeiliaid. Ac yn dda i'r amgylchedd.



Rydyn ni hefyd yn meddwl na ddylai ein bwyd ni gael ei **addasu'n enetig**.

Addasu genetig ydy pan mae gwyddonwyr yn newid bwyd er mwyn iddo dyfu mewn ffordd arbennig.

Yr iaith Gymraeg



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae pobl yn gallu defnyddio Cymraeg a Saesneg.



Er mwyn i hyn ddigwydd rydyn ni angen rhagor o siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni eisiau cael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Rydyn ni eisiau pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith. Ac mewn lleoedd eraill mewn bywyd fel siopau ac yn y llywodraeth.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn gallu cael addysg Gymraeg. Fel bod pawb yn cael cyfle i siarad Cymraeg.



Y LLWYFAN

Ardal Blant

CHWARAEON

Y Sgubon

ALLANFA

POP

YURT

LLWYFAN

Toileddau

JAVAN

Diwylliant a'r cyfryngau

Rydyn ni'n meddwl bod diwyllaint yn rhan bwysig iawn o'n ffordd o fyw ni. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:



- Celf.



- Iaith.



- Chwaraeon.



Fe fyddwn ni'n meddwl am sut rydyn ni'n gallu cefnogi diwylliant Cymru pan rydyn ni'n gwneud penderfyniadau.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod mynd i amgueddfeydd yn aros am ddim i'r cyhoedd.



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud llyfrgell ar-lein i Gymru. Fel bod pawb yn gallu cael llyfrau.



Ac rydyn ni eisiau gwneud oriel newydd ar gyfer celf modern.



Rydyn ni hefyd eisiau'r pŵer i wneud penderfyniadau am ein **cyfryngau** ein hun.



Cyfryngau ydy popeth rydyn ni'n eu defnyddio i gyfathrebu syniadau. Fel teledu, ffilmiau, radio a phapurau newydd.



Rydyn ni eisiau i'n cyfryngau ni gynrychioli pobl Cymru. A beth sydd yn bwysig iddyn nhw.



Cydraddoldeb



Rydyn ni'n credu y dylai pawb gael yr un cyfle. Ac na ddylai neb gael eu bwllo oherwydd pwy ydyn nhw.



Rydyn ni eisiau'r pŵer i wneud ein deddfau ein hunain am gydraddoldeb. Er mwyn inni allu amddiffyn pobl pan mae angen inni wneud hynny.



Rydyn ni eisiau i fenywod gael cyfle cyfartal yn y gwaith. Rydyn ni eisiau rhagor o leoedd gwaith i adael i staff weithio gwahanol oriau ac o wahanol leoedd fel gartref, i helpu gyda hyn.



Mae angen inni wrando ar brofiadau pobl **LGBT**.

Mae **LGBT** yn meddwl **lesbiaid**, **dynion hoyw**, **pobl ddeurywiol** a **phobl trawsrywiol**.



Lesbiaid ydy menywod sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill.



Dynion hoyw ydy dynion sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill.



Pobl ddeurywiol ydy pobl sydd yn hoffi ac yn caru dynion a menywod.



Pobl trawsrywiol ydy pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd wedi cael ei eni fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn.



Mae gennym ni arian i ddal i redeg a gwella'r **Clinig Hunaniaeth Rhyw**.



Gwasanaeth yng Nghymru ydy'r **Clinig Hunaniaeth Rhyw** sydd yn cefnogi pobl sydd yn **drawsrhywiol**. Neu sydd yn meddwl eu bod efallai yn **drawsrhywiol**.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yma os ydyn nhw ei angen. A dydyn nhw ddim yn gorfod aros am amser hir i'w ddefnyddio.



Rydyn ni eisiau i ysgolion yng Nghymru gadw cofnod o unrhyw fwllo sydd yn digwydd oherwydd **rhywioldeb** rhywun.

Mae **rhywioldeb** yn meddwl rhywun rydych chi'n eu hoffi neu eu caru.



Fe fyddwn ni hefyd yn helpu pobl anabl i gael gwaith mewn ffordd sydd orau iddyn nhw.

Newid San Steffan



Rydyn ni eisiau newid y ffordd mae pobl yn pleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol.



Dydyn ni ddim yn meddwl bod y ffordd rydyn ni'n pleidleisio nawr yn deg.



Rydyn ni hefyd eisiau newid **Tŷ'r Arglwyddi** fel bod y cyhoedd yn gallu dewis pwy ydy'r **Arglwyddi**.



Mae **Tŷ'r Arglwyddi** yn rhan o'r senedd. Mae gan yr **Arglwyddi** y pŵer i ddweud ie neu na i ddeddfau newydd. Ond nawr dydy'r **Arglwyddi** ddim yn cael eu dewis gan y cyhoedd.



Nawr dim ond pan rydych chi'n 18 oed neu drosodd rydych chi'n cael pleidleisio. Rydyn ni'n meddwl y dylai pobl ifanc 16 ac 17 oed gael pleidleisio a chael dweud beth maen nhw'n feddwl hefyd.

Heddwch a diogelwch



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn rhan o fyd lle rydyn ni'n cadw ein gilydd yn ddiogel.



Mae'r Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur eisiau gwario biliynnau o bunnoedd ar **arfau niwclear**.

Arfau niwclear ydy bomiau sydd yn gallu teithio ymhell a chreu llawer o ddifrod.



Rydyn ni'n meddwl y dylem ni gael gwared ar **arfau niwclear**.



Yn lle hynny rydyn ni eisau gwneud yn siŵr bod gan ein **lluoedd amddiffyn** ddigon o arian a'u bod yn rhedeg yn dda.

Mae ein **lluoedd amddiffyn** yn cynnwys y fyddin, y llynges, y môr-filwyr a'r llu awyr. Fe fydden nhw'n amddiffyn Cymru os bydden ni mewn rhyfel.



Rydyn ni hefyd eisiau gweithio gyda'r llywodraeth ac arbenigwyr eraill ar sut i amddiffyn pobl Cymru rhag **ymosodiadau digidol**.

Ymosodiadau digidol ydy pan mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd i achosi niwed i rywun arall. Er enghraifft, torri i mewn i gyfrif banc ar-lein rhywun.

Ein dyletswydd ni ydy edrych ar ôl pobl oedd yn gweithio yn ein lluoedd amddiffyn ni. Rydyn ni angen gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael:



- Gofal iechyd da.



- Gofal iechyd meddwl da.



- Lle diogel i fyw.

Pobl sydd yn ymweld â Chymru



Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl yng Nghymru yn gweithio mewn **twristiaeth**.



Twristiaeth ydy pobl yn teithio i gael hwyl. Mae'n gallu meddwl pethau fel mynd i weld gwahanol leoedd.



Rydyn ni eisiau i bobl ddod i Gymru fel bod pobl yng Nghymru sydd yn gweithio mewn **twristiaeth** yn gallu gwneud yn dda.



Rydyn ni eisiau i bobl wybod bod llawer o bethau i'w gwneud yng Nghymru. A bod ein lleoedd naturiol, diwylliant a bwyd o ansawdd da.



Nawr mae **twristiaeth** Cymru yn cael ei ddal yn ôl gan drethi annheg.



Mae'n cael ei ddal yn ôl hefyd oherwydd nad ydy'r llywodraeth yn dweud wrth bobl bod Cymru yn lle da i fynd ar wyliau.



Fe fyddwn ni'n torri'r trethi annheg ar **dwristiaeth** fel bod pobl eisiau ymweld.



Ac fe fyddwn ni'n gwario arian i wneud yn siŵr bod pobl o gwmpas y byd yn gwybod am Gymru. Ac eisiau ymweld.

Geiriau anodd

Addasu genetig

Addasu genetig ydy pan mae gwyddonwyr yn newid bwyd er mwyn iddo dyfu mewn ffordd arbennig.

Arfau niwclear

Bomiau ydy arfau niwclear sydd yn teithio ymhell ac sydd yn achosi llawer o ddifrod.

Carbon diocsid

Carbon diocsid ydy nwy rydyn ni'n ei wneud pan rydyn nin llosgi glo ac olew. Mae'n ein helpu ni i wneud trydan ond mae hefyd yn gwneud y byd yn rhy boeth. Mae hyn yn gwneud tywydd eithafol fel llifogydd a stormydd.

Clinig Hunaniaeth Rhyw

Gwasanaeth yng Nghymru ydy'r Clinig Hunaniaeth Rhyw sydd yn cefnogi pobl sydd yn drawsrywiol. Neu sydd yn meddwl eu bod efallai yn drawsrywiol.

Cyfryngau

Cyfryngau ydy popeth rydyn ni'n eu defnyddio i gyfathrebu syniadau. Fel teledu, ffilmiau, radio a phapurau newydd.

Economi

Yr economi ydy swyddi mae pobl yn eu gwneud a'r arian sydd ganddyn nhw.

LGBT

Mae LGBT yn meddwl lesbiaid, dynion hoyw, pobl ddeurywiol a phobl trawsrywiol.

- **Lesbiaid** ydy menywod sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill.
- **Dynion hoyw** ydy dynion sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill.
- **Pobl ddeurywiol** ydy pobl sydd yn hoffi ac yn caru dynion a menywod.
- **Pobl trawsrywiol** ydy pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd wedi cael ei eni fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn.

Lluoedd arfog

Mae ein lluoedd amddiffyn ni yn cynnwys y fyddin, y llynges, y môr-filwyr a'r llu awyr. Fe fydden nhw'n amddiffyn Cymru os bydden ni mewn rhyfel.

Newid hinsawdd

Hinsawdd ydy tueddiadau tywydd hir dymor. Newid hinsawdd ydy newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein dŵr a'n aer ni yn mynd yn fwy cynnes.

Rhywioldeb

Mae rhywioldeb yn meddwl pwy rydych chi'n eu hoffi a'u caru.

San Steffan

San Steffan ydy'r prif lywodraeth yng ngwledydd Prydain.

System gyfiawnder

Y system gyfiawnder ydy sut rydyn ni'n delio â throsedd yn y wlad yma. Rydyn ni'n penderfynu os ydy pobl yn euog neu yn ddieuog yn y llys.

Twristiaeth

Twristiaeth ydy pobl yn teithio i gael hwyl. Mae'n gallu meddwl pethau fel mynd i weld gwahanol leoedd.

Tŷ'r Arglwyddi

Mae Tŷ'r Arglwyddi yn rhan o'r senedd. Mae gan yr Arglwyddi y pŵer i ddweud ie neu na i ddeddfau newydd. Ond nawr dydy'r Arglwyddi ddim yn cael eu dewis gan y cyhoedd.

Yr Undeb Ewropeaidd

Grŵp o wledydd yn Ewrop lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ydy'r Undeb Ewropeaidd. Rydyn ni'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd nawr.

Ymosodiadau digidol

Ymosodiadau digidol ydy pan mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd i achosi niwed i rywun arall. Er enghraifft, torri i mewn i gyfrif banc ar-lein rhywun.